**Bracknell Forest Borough Council**
**Record of Decision**

| Key Decision | Work Programme Reference |
|---|---|
| | |

1. **TITLE:** Welsh Conservatives Debate

2. **SERVICE AREA:**

3. **PURPOSE OF DECISION**

4. **DECISION MADE BY:** Y Cyfarfod Llawn

5. **DECISION:**

Dechreuodd yr eitem am 15.04.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4924 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd mewnfuddsoddiad i economi Cymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Fewnfuddsoddiad yng Nghymru; a

3. Yn cymeradwyo sylwadau'r Athro Brian Morgan a ddywedodd ei bod yn debyg y bydd cau'r WDA a diddymu 'brand WDA' yn cael ei gofio fel y penderfyniad polisi gwaethaf a wnaed yng Nghymru mewn cof.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, rhoi "cymharol" ar ôl "Yn nodi pwysigrwydd…"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 16 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

2. Yn cydnabod bod angen i Gymru ddod yn lleoliad mwy deniadol i fuddsoddi; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar agweddau o fuddsoddi nad ydynt yn or-ddibynnol ar gefnogaeth uniongyrchol i fusnesau unigol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gwell seilwaith a lefelau uwch o sgiliau, yn ogystal â marchnata Cymru'n well, er mwyn denu rhagor o fewnfuddsoddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4924 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd cymharol mewnfuddsoddiad i economi Cymru;

2. Yn cydnabod bod angen i Gymru ddod yn lleoliad mwy deniadol i fuddsoddi;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar agweddau o fuddsoddi nad ydynt yn or-ddibynnol ar gefnogaeth uniongyrchol i fusnesau unigol; a

4. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gwell seilwaith a lefelau uwch o sgiliau, yn ogystal â marchnata Cymru'n well, er mwyn denu rhagor o fewnfuddsoddiad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

6. **REASON FOR DECISION**

7. **ALTERNATIVE OPTIONS CONSIDERED**

8. **PRINCIPAL GROUPS CONSULTED:**

9. **DOCUMENT CONSIDERED:**

10. **DECLARED CONFLICTS OF INTEREST:**

11. **DISPENSATIONS GRANTED:**

| Decision Number | Date of Decision Made | Date decision will be implemented |
|---|---|---|
| | 29 Chwefror 2012 | |